



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Water Management Team
(Strategy Consultation Response)
Canal & River Trust
Canal Lane
Hatton
Warwick
CV35 7JL

24^{ain} Hydref 2014

Annwyl Syr/Madam,

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP /CF24 0TP

Ebost/Email:

Ruth.Jenkins@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ruth.Jenkins@naturalresourceswales.gov.uk

YMATEB CYFOETH NATURIOL CYMRU I STRATEGAETH ADNODDAU DŴR Y CANAL AND RIVER TRUST

Diolch am y cyfle i ymateb i Strategaeth Adnoddau Dŵr y Canal and River Trust. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cydnabod pa mor gymhleth yw dileu eithriadau trwyddedau ar gyfer tyniadau oedd wedi'u heithrio yn y gorffennol sy'n darparu cyflenwad dŵr i ddyfrffyrdd y mae'r CRT yn eu gweithredu. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gysylltu'n agos â'r CRT i gynnal cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol dyfrffyrdd y mae'r CRT yn eu gweithredu. Rhoddir sylw i'r materion a chwestiynau ymgynghori sy'n berthnasol i reoli dŵr a chylch gwaith CNC isod.

Cwestiwn 5

Rydym yn cytuno ar raglen waith i barhau a gwella'ch dealltwriaeth o'r cyflenwad dŵr a'r galw am ddŵr yn systemau dŵr CRT. Bydd hyn yn caniatáu i gyllideb dŵr yn y system dŵr gael ei chyflawni, ac yn sicrhau cynaliadwyedd tyniadau yn y dyfodol.

Cwestiwn 6

Rydym yn cytuno bod defnyddio canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd a DEFRA yn addas i bennu'r gofynion adnoddau strategol ar gyfer systemau dŵr a reolir gan CRT. Mae'r gallu i amcangyfrif dŵr wrth gefn mewn system camlesi yn bwysig a bydd defnyddio methodolegau cyhoeddedig mewn modd cyson yn golygu y gellir modelu adnoddau dŵr yn gywir.

Cwestiwn 7

Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r elfennau sydd ar ôl o Ddeddf Dŵr 2003. Bydd hyn yn dileu eithrio tyniadau at ddiben mordwyo. Ar ôl i'r rheoliadau gael eu gweithredu, bydd CNC yn trwyddedu tyniadau a wneir yn gyfan gwbl yng Nghymru, a chyflawnir hyn yn unol â'r polisi terfynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Tabl 2 yn y ddogfen ymgynghori'n ddarlun defnyddiol o amserlen a chamau gweithredu'r ffordd mae CRT yn bwriadu modelu pwysau dŵr yn y dyfodol ar systemau camlesi. Mae hwn yn ddull rhesymegol, fesul cam, a fydd yn

cynorthwyo â deall cyllidebau dŵr mewn systemau camlesi a sicrhau bod y tyniadau'n gynaliadwy.

Cwestiwn 13 Rydym yn cefnogi dull i sicrhau y caiff gollyngiadau o lociau eu rheoli a'u blaenoriaethu. Mae lleihau gollyngiadau mewn systemau camlesi'n sicrhau bod tyniadau dŵr i system camlesi'n effeithlon, ac o ganlyniad yn sicrhau y parheir i ddefnyddio adnoddau dŵr yn effeithlon.

Cwestiwn 14

Rydym yn cytuno â chylch pum mlynedd i adolygu'r Strategaeth Adnoddau Dŵr. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl asesu newidiadau i'r gyllideb dŵr mewn systemau dŵr a blaenoriaethu camau gweithredu. Bydd hyn yn caniatáu i CRT gynnal cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol mewn systemau camlesi a sicrhau y caiff materion blaenoriaethol eu canfod a'u rheoli.

Sylwadau eraill

Mae Atodiad 2 yn nodi'r flaenoriaeth ar gyfer systemau camlesi a fydd yn cael eu modelu yn ystod pum mlynedd gyntaf y Strategaeth Dŵr. Rydym yn llwyr gefnogi cynnwys Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn y cylch cyntaf hwn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi wrth i'ch Strategaeth Adnoddau Dŵr gael ei datblygu.

Yn gywir,



Ruth Jenkins Rheolwr Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio